Taflen weithgaredd 3 Cydweithio'n rhyngwladol

Sefydlwyd yr Undeb Ewropeaidd yn wyneb angen cenhedloedd i gydweithredu â'i gilydd yn y blynyddoedd wedi'r Ail Ryfel Byd. Erbyn heddiw, mae'r UE yn cydweithio'n helaeth ag eraill ac yn mynd y tu hwnt i'w ffiniau ei hun i chwarae rhan mewn materion amddiffyn a datblygu yn rhyngwladol.

Mae'r daflen weithgaredd hon yn helpu disgyblion i ddeall sail cydweithredu Ewropeaidd, ac yn ystyried y rhan y mae'r UE yn ei chwarae ym maes amddiffyn a thlodi byd-eang.

TGAU CBAC, Saesneg – *Non-fiction reading tasks* (gweithgaredd ymestyn)
Gweler y Cyflwyniad ar gyfer Athrawon am gysylltiadau cyffredinol â'r cwricwlwm

Pam ddylai gwledydd gydweithio?

Mae'r syniad o wledydd yn cydweithio yn sail i'r UE cyfan. Pam felly?

- Datblygodd yr Undeb Ewropeaidd ar sail **Cymuned Glo a Dur Ewrop**, a sefydlwyd ym 1951 gyda 6 aelod: Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, Lwcsembwrg, Gorllewin yr Almaen, Ffrainc a'r Eidal. Diben y Gymuned oedd cronni adnoddau dur a glo y gwledydd. Oherwydd bod y rhain yn ddiwydiannau pwysig yn ystod y rhyfel, y syniad oedd y byddai eu huno yn medru atal rhyfel arall.

- Yn ddiweddarach ymunodd **Cymuned Economaidd Ewrop** a **Chymuned Ynni Atomig Ewrop** â'r Gymuned Glo a Dur. Sail y ddwy gymuned newydd oedd pedwar 'rhyddid': pobl, cyfalaf, gwasanaethau a nwyddau yn symud yn rhydd.

- Ffurfiwyd **Yr Undeb Ewropeaidd** ym 1993, gan gyfuno'r tair Cymuned â pholisi tramor cyffredin (gweler isod) a chydweithredu mewn materion troseddol.

Gweithgaredd: Beth yw'r pwynt?
Rhennwch y dosbarth yn ddau hanner. Gan ddefnyddio dalennau siart droi, dylai hanner y dosbarth gyfnewid syniadau am yr holl wahanol resymau posib y byddai gan *bobl* dros gydweithio mewn grwpiau. Dylai'r hanner arall gyfnewid syniadau am y rhesymau posib y byddai gan *wledydd* dros gydweithio. A yw'r rhesymau dros gydweithio yn rhai tebyg?

Gofynnwch i ddau hanner y dosbarth i gyfnewid â'i gilydd nawr. Gan ddefnyddio dalennau siart droi newydd, cyfnewidiwch syniadau am unrhyw amheuon neu ofnau posib a fyddai gan bobl/gwledydd ynglŷn â chydweithredu. Rhowch y dalennau siart droi ar furiau'r ystafell ddosbarth, a'u defnyddio fel sbardun ar gyfer trafodaeth.

Pwyntiau i'w trafod ymhellach:
- Pam fod pobl neu wledydd yn teimlo'r angen i gydweithredu?
- A yw hi weithiau'n well i ddyfeisio eich ateb eich hun i sefyllfa?
- A yw hi'n bosibl i wledydd cyfoethog a thlawd i gydweithredu yng ngwir ystyr y gair?
- Pa fath o reolau fyddai eu hangen, o bosib, er mwyn cydweithredu'n effeithiol?

Gweithgaredd ymestyn:
Gofynnwch i'r disgyblion i gasglu pigion o'r papurau newydd neu allbrintiau o'r we sy'n sôn am yr UE (dylai'r rhain gynnwys newyddion o ffynonellau y tu hwnt i'r DG os yn bosibl). A yw'r pigion/allbrintiau yn rhoi argraff o Undeb lle mae gwledydd yn cydweithredu'n effeithiol?

Yr UE – yn rhoi terfyn ar dlodi?

TGAU	CBAC, Daearyddiaeth – Dinasyddiaeth Byd-eang a Rhyng-ddibyniaeth
A2	CBAC, Economeg – Masnach a Datblygiad

I ba raddau y bydd Ewrop yn helpu gwledydd sy'n datblygu i leihau tlodi?

- Yr UE a'i aelod-wladwriaethau, ar y cyd, yw'r rhoddwr mwyaf yn y byd o nawdd datblygu i wledydd tlawd ($42.9 biliwn yn 2005). Mae wedi llofnodi **Amcanion Datblygu'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer y Mileniwm** (MDGs), sy'n amcanu lleihau tlodi byd-eang yn sylweddol erbyn 2015.

- Mae'r UE yn rhoi pwyslais arbennig ar Affrica is-Saharaidd, sef y rhanbarth sydd bellaf ar ei hôl hi o ran cyflawni'r MDGs.

- Wrth helpu gwledydd tlawd iawn i ddatblygu, mae'r UE yn cefnogi defnyddio **Papurau Strategaeth Lleihau Tlodi** – dogfennau y mae'r **Gronfa Ariannol Ryngwladol** (IMF) yn mynnu bod gwledydd yn eu cynhyrchu cyn y gellir diddymu eu dyledion. Dywed y beirniaid bod Strategaethau o'r fath yn cael eu defnyddio'n aml i ryddfrydoli'r diwydiannau gwasanaeth – mewn geiriau eraill, i alluogi cwmnïau preifat i wneud cynnig am wasanaethau fel dŵr a thrydan a reolid hyd hynny gan y llywodraeth.

- Mae 15 o blith 25 aelod yr UE wedi ymrwymo i roi **0.7% o'u hincwm** yn y pen draw i ddatblygu rhyngwladol. Dim ond Lwcsembwrg, Denmarc, Sweden a'r Iseldiroedd sydd eisoes wedi cwrdd â'r nod hwnnw. Ar hyn o bryd mae'r DG yn rhoi 0.36% a'r Eidal yn rhoi 0.15%; 0.46% yw'r cyfartaledd. Yn 2005 gosododd Cyngor Ewrop darged hanner y ffordd o 0.56% erbyn 2010, i gyrraedd 0.7% erbyn 2015.

Gweithgaredd: Uwchgynhadledd UE ar raddfa fechan

Dylai pob pâr o ddisgyblion chwarae rhan un o'r 15 o wledydd yr UE sydd wedi ymrwymo i gyrraedd y nod o 0.7%, sef: Yr Almaen (0.28% ar hyn o bryd), Awstria (0.24), Denmarc (0.84), DG (0.36), Yr Eidal (0.15), Y Ffindir (0.35), Ffrainc (0.42), Gwlad Belg (0.41), Gwlad Groeg (0.23), Yr Iseldiroedd (0.74), Iwerddon (0.39), Lwcsembwrg (0.85), Portiwgal (0.63), Sbaen (0.26), Sweden (0.77). Os oes ganddynt amser, dylai pob pâr wneud peth gwaith ymchwil ychwanegol ar y rhyngrwyd, gan ddod i wybod sut y caiff nawdd eu gwlad hwy ei wario, a beth yw ei blaenoriaethau.

Bydd yr Uwchgynhadledd yn ystyried sut mae cyrraedd 0.7% erbyn 2015. Ystyriwch gwestiynau fel:

- Faint yn rhagor mae eich gwlad chi yn fodlon rhoi?
- Yw hi'n deg bod y gwledydd mwy hael yn 'noddi' gwledydd eraill i roi llai?
- A ddylai pob gwlad roi cymorth i feysydd penodol (e.e. materion amgylcheddol, sicrhau bwyd, gwella'r modd y llywodraethir y wlad), neu a ddylai'r arian i gyd fynd i 'gronfa' gyffredinol yr UE?

Pwyntiau i'w trafod ymhellach:

- A ddylai'r UE osod targedau ar yr hyn mae'n ei roi i wledydd tlawd, neu a ddylai pob gwlad benderfynu'n unigol?
- Oes yna gydraddoldeb rhwng gwledydd yn yr UE, heb sôn am rhwng Ewrop ac Affrica neu Asia?
- A ddylai'r UE ganolbwyntio ar dlodi o fewn ei aelodau ei hun yn gyntaf?
- Beth fedrwch *chi* ei wneud i helpu i frwydro yn erbyn tlodi?

Diogelwch ac amddiffyn

Pa mor effeithiol yw'r UE wrth helpu i ddatrys gwrthdaro?

- Mae'r UE yn gweithio ar y cyd â **NATO** (North Atlantic Treaty Organisation) i gadw achosion o wrthdaro arfog rhag digwydd yn Ewrop a thu hwnt, ac i'w datrys pan fyddant yn digwydd. Ymhlith y tasgau pwysig ar hyn o bryd mae mynd i'r afael â therfysgaeth ac atal ymlediad arfau dinistr eang.

- Mae'r **Polisi Diogelwch ac Amddiffyn Ewropeaidd** (ESDP) o dan reolaeth yr UE, ac yn cynnwys gwledydd sydd ddim yn aelodau o NATO. Yn 2002, cyhoeddodd yr UE a NATO ar y cyd y byddent yn ymgynghori â'i gilydd, yn gweithio gyda'i gilydd, ac yn parchu annibyniaeth ei gilydd.

- Dywed rhai bod yr ESDP yn golygu nad oes angen NATO bellach. Dywed eraill bod angen NATO am ei fod yn cynnwys UDA, Twrci a gwledydd eraill nad ydynt yn aelodau o'r UE: efallai mai'r ESDP sy'n ddianghenraid.

- Yn 2003, bu'r UE yn gweithio ar y cyd â'r Cenhedloedd Unedig (CU), UDA a Rwsia ar **'fap o'r heol fawr at heddwch'** a gynlluniwyd i ddatrys y sefyllfa rhwng Israel a Palesteina. Bach iawn o lwyddiant a gafodd y 'map' hwnnw hyd yn hyn.

Gweithgaredd: Ymchwilio a chyflwyno
Rhennwch y dosbarth yn grwpiau o 4 i 6. Dylai pob grŵp ymchwilio i un o'r ardaloedd hyn lle mae gwrthdaro: Affganistan, Bosnia a Hertsegofina, Cyprus, Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo, Irac, Israel/Palesteina.

Dylai pob grŵp baratoi cyflwyniad sy'n sôn am y rhan a chwaraeir, ac a chwaraewyd gynt yn eu hardal gan (a) yr UE, (b) NATO, (c) aelod-wladwriaethau unigol yr UE, ac (ch) cyrff eraill megis y CU. Beth a gyflawnwyd, a beth arall ellir ei wneud? Pa wahaniaeth fyddai'n ei wneud pe bai'r UE yn gwneud mwy/llai?

Pwyntiau i'w trafod ymhellach:
- Yr UE ynteu NATO: pa un fyddai'n well gennych ei weld yn ymdrin â gwrthdaro yn Ewrop?
- I ba raddau ddylai'r UE ymwneud â gwrthdaro *y tu allan* i Ewrop?
- A yw aelodaeth yn yr UE yn golygu bod gwlad yn llai agored i wrthdaro?
- Mae 6 o wladwriaethau'r UE (Awstria, Cyprus, Y Ffindir, Iwerddon, Malta a Sweden) nad ydynt yn aelodau o NATO. Pa wahaniaeth mae hyn yn ei wneud?
- A ddylai'r UE gadw byddin amser-llawn?

Ynglŷn â Citaware

Nod Citaware yw cynyddu ymwybyddiaeth o'n dinasyddiaeth Ewropeaidd yng Nghymru, gan alluogi pobl o bob oedran i ymwneud â sefydliadau'r UE. Fe'i noddir gan y Comisiwn Ewropeaidd a'i drefnu ar y cyd gan:

Welsh Centre for International Affairs
Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol (WCIA)
Fforwm cenedlaethol i gyfnewid syniadau am faterion rhyngwladol.

www.wcia.org.uk

CEWC CYMRU

Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd – Cymru
Adain ysgolion WCIA.

www.cewc-cymru.org.uk

EuropaWorld

EuropaWorld
Papur newydd ar-lein rhad ac am ddim sy'n trafod datblygu rhyngwladol o safbwynt Ewropeaidd.